

Magnox Socio-economic funding in the community update

The scheme is available for applications under the 'One NDA' Grant System with funding of up to £1,000 (Good Neighbour level), while larger requests, and those for multi-year funding, of up to £200,000 are expected to comply with a range of criteria aimed at creating resilient economies, thriving communities, sustainable incomes and growth for our communities.

For more information, or if you know a group who could benefit then please visit:
<https://www.gov.uk/government/collections/magnox-working-with-our-communities>.

If you need any further assistance, please contact:

For applications up to £1,000 –
Michelle Humphreys, michelle.humphreys@magnoxsites.com, Tel. 07738 694660

Or for applications over £1,000 –
Mair Jones, mair.jones@magnoxsites.com, Tel. 07850 92166

Magnox has been shortlisted for three prestigious Nuclear Skills Academy for Nuclear (NSAN) awards for its work in 2020.



The first award, for Magnox's outstanding Covid-19 community response, which will be decided by a public vote. You will recall back in March 2020, Magnox made £25,000 available per site from the Magnox Socio-economic scheme. Personal protective equipment (PPE) was distributed to various volunteer groups; Syr Thomas Jones Secondary school received funding for 3D printers to create visors for volunteers, with a legacy for the pupils for future use; provisions for food banks and the 'Neges' project, delivering food to the vulnerable and supplying activity packs to local families.

Magnox would be grateful if you can pledge your vote and also encourage other community groups who we have supported to do so for Magnox's entry in this category online by visiting the following website:

<https://www.nsan.co.uk/page/MagnoxCommunityAwardFinalist>

You can watch Magnox's nomination film, highlighting our work across the UK to support our communities. The film features staff and community groups supported during the pandemic.

The company has also been nominated for its notable ED&I work and for its recruitment of apprentices, in partnership with Energus and National College for Nuclear.

Voting closes on 25th March – thank you for your support!

Socio-economic funded projects update:

Bwyd Da Môn is an exciting new organisation that has grown out of collaboration between many organisations including Anglesey County Council, Betsi Cadwaladr University Health Board, Ynys Môn Citizens Advice, Coleg Llandrillo Menai and Anglesey Food Bank.

They recently received £8,540 from Magnox to purchase industrial fridges and freezers to assist with the initial set up.



The community hub has been developed in Llangefni around the concept of a not-for-profit shop, which re-distributes leftover produce from a range of supermarkets and food producers. Excess food is collected from local food suppliers that would otherwise have gone to landfill. The shop is a membership-based food club, which costs £5 per week, and is open to all. The membership fee enables members to access a minimum of £20 worth of food each week.

Glynne Roberts, Chair of Bwyd Da Môn added “Bwyd Da Môn is an invaluable scheme which will enable the residents of Anglesey to access good quality food at an affordable price, and to play their part in eradicating food waste. But the scheme can only thrive due to the support received from partner organisations in helping us to set up the different elements that are essential to the project. In this respect, the funding provided from Magnox enabled us to purchase high quality fridges and freezers, which are a core element of the overall project, and will be crucial to our success.”




In December alone, over 120 parcels have been handed out and in the region of 158 volunteer hours.

Bwyd Da Môn is now working on building up stock levels, developing ready meals with food waste that needs to be used immediately and in the future hope to introduce a community cooking skills education programme where families will be encouraged to provide fresh home-cooked, nutritious meals.

Multi year Socio-economic funded projects update:

Isle of Anglesey County Council, North Anglesey Regeneration Plan, NDA funding of £495,000 over three years.



In July 2018 with £38,500 Magnox funding, Isle of Anglesey County Council commissioned a survey for North Anglesey to inform the preparation of a Regeneration Plan, as part of the Energy Island Programme Phase 3.

From the responses, a Consultation Survey Results Report was produced. This highlighted a set of local priorities viewed by the local communities where the investment is needed.

In 2019, the NDA committed £495,000 contribution over three years to a package of measures aimed at boosting business activity, the supply chain and employment, increasing tourism, improving transport and infrastructure and reviving the High Street.

Although the first year was hugely impacted by the Covid-19 pandemic, a number of studies were successfully commissioned. A Business Case was produced for an Enterprise Zone justification for the former Octel site and Amlwch Industrial Estate. An Amlwch Port Regeneration Masterplan has been produced outlining redevelopment opportunities for the area along with a Destination Action Plan, identifying visitor attractions in a coherent plan.

£50,000 was also allocated to a North Anglesey Grant Fund which saw 11 organisations supported, resulting in 39 jobs created/secured, 30 training opportunities and 96 volunteering opportunities. Amongst some supported were Caru Amlwch, Llanbadrig Vineyard and a young fisherman who took over his father's business.

STEM Gogledd Project received £201,000 Magnox funding over four years covering Anglesey, Gwynedd and Conwy. The project is progressing well despite the mentors having to revert to virtual sessions, with over 300 pupils registered with the project in the first six months prior to the March lockdown, of which 59% female intake. Almost 600 pupils have participated in organised interventions.

The Hub is now fully developed and supports pupils, teachers and parents. It contains STEM ideas, careers information, event guides, competitions and links to revision support.

Last October some year 10 pupils participated in activities at Zip World, Bethesda and featured in episode two of Carol Vorderman's series 'Closer to home' which aired on BBC One recently:

<https://www.bbc.co.uk/iplayer/episode/m000r944/carol-vorderman-closer-to-home-series-1-episode-2>



Carol Vorderman with STEM Gogledd participants at Zip World

Prior to the lockdown, ambassadors from the program also visited several Anglesey schools to give presentations. Participants had talks from STEM ambassadors such as Frankie Hobro from the Sea Zoo who gave a presentation on sustainability and Marine Biology, Debbie Jones from Bangor University on Nuclear Physics and Katie Haywood, a site construction manager, who spoke about “Women into STEM”. Some students also had presentations from “Llwyddo’n Lleol” a local Digital Media Production Company about their perception of jobs in Anglesey.



Year 9 'Girls into construction' at Coleg Llandrillo Menai



Ysgol Syr Thomas Jones, apprentice talks from Read Construction



Participants visited the Ynni Ogwen Hydro-electric power system on the River Ogwen.



Môn CF have just successfully completed their third and final year of their 'Next Steps' project with £300,000 of funding from Magnox.

This funding allowed the continuation of the academy services whilst transitioning to the new premises by supporting the roles of the academy delivery manager and two full time training co-ordinators. Magnox funding also helped Môn CF leverage an additional £480,000 to purchase and extensively refurbish their main HQ office and hub.

In 2020/21 alone, Magnox funding has helped over 600 participants across Anglesey, over 150 from the Amlwch catchment area. 240 people have been supported into employment, 43 of which from the Amlwch area. 450 qualifications were also gained, 138 of those from Amlwch participants.

Lynn Rees who now works in a local GP Surgery benefited from the support saying *“The best thing about Môn CF is all the training you get and the continuous support in gaining paid employment. It means the world to me that I am now in employment and doing something I love! I am so happy I went with Môn CF as it has changed my life! “*



From February 2021 Môn CF will also be delivering the Kickstart Scheme funded by the Government to giving 16-24 year olds the opportunity for six month paid work placements.

Diweddariad ar gyllid economaidd-gymdeithasol Magnox yn y gymuned

Mae'r cynllun ar gael i ymgeiswyr dan y System Grantiau 'Un NDA' gyda chyllid gwerth hyd at £1,000 (lefel Cymydog Da), tra bod disgwyl i geisiadau mwy o faint a rhai ar gyfer cyllid am sawl blwyddyn, gwerth hyd at £200,000, gydymffurfio ag ystod o feini prawf a anelwyd at greu economïau gwydn, cymunedau ffyniannus, incymau cynaliadwy a thwf yn ein cymunedau.

Am ragor o wybodaeth, neu os ydych chi'n gwybod am grŵp a allai elwa, ewch i: <https://www.gov.uk/government/collections/magnox-working-with-our-communities>.

Os oes arnoch angen rhagor o gymorth, cysylltwch â:

Ar gyfer ceisiadau hyd at £1,000 –
Michelle Humphreys, michelle.humphreys@magnoxsites.com, Ffôn 07738 694660

Ar gyfer ceisiadau dros £1,000 –
Mair Jones, mair.jones@magnoxsites.com, Ffôn 07850 92166

Magnox ar y rhestr fer am dair gwobr fawreddog gan yr Academi Sgiliau Niwclear Cenedlaethol (NSAN) am ei waith yn 2020.



Bydd y wobwr gyntaf, am ymateb cymunedol eithriadol Magnox i Covid-19, yn cael ei phennu drwy bleidlais gyhoeddus. Fe gofiwch i Magnox, nôl ym mis Mawrth 2020, ryddhau £25,000 fesul safle o gynllun Economaidd-Gymdeithasol Magnox. Dosbarthwyd Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) i sawl grŵp gwirfoddol; cafodd Ysgol Uwchradd Syr Thomas Jones gyllid ar gyfer argraffwyr 3D i greu fisorau ar gyfer gwirfoddolwyr, gyda gwaddol ar gyfer disgyblion a fydd yn gallu eu defnyddio yn y dyfodol; darpariaethau ar gyfer banciau bwyd a'r prosiect 'Neges', a oedd yn dosbarthu bwyd i bobl agored i niwed a chyflenwi pecynnau gweithgareddau i deuluoedd lleol.

Byddai Magnox yn ddiolchgar pe gallech roi eich pleidlais i ni a hefyd annog grwpiau cymunedol eraill rydym wedi eu cefnogi i wneud yr un fath yn y categori hwn ar-lein drwy ymweld â'r wefan a ganlyn:

<https://www.nsan.co.uk/page/MagnoxCommunityAwardFinalist>

Gallwch wyllo ffilm enwebu Magnox, yn amlygu ein gwaith ledled y DU i gefnogi ein cymunedau. Mae'r ffilm yn cynnwys staff a grwpiau cymunedol a gefnogwyd yn ystod y pandemig.

Enwebwyd y cwmni hefyd am ei waith Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant nodedig ac am recriwtio prentisiaid, mewn partneriaeth ag Energus a'r Coleg Niwclear Cenedlaethol.

Bydd y pleidleisio'n cau ar 25 Mawrth – diolch am eich cefnogaeth!

Diweddariad ar brosiectau Economaidd-gymdeithasol a gyllidwyd:

Mae **Bwyd Da Môn** yn sefydliad newydd cyffrous sy'n ffrwyth gwaith ar y cyd rhwng sawl sefydliad gan gynnwys Cyngor Sir Ynys Môn, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Cyngor ar Bopeth Ynys Môn, Coleg Llandrillo Menai a Banc Bwyd Ynys Môn.

Yn ddiweddar, derbynion £8,540 oddi wrth Magnox i brynu oergelloedd a rhewgelloedd diwydiannol i gynorthwyo gyda'r gwaith sefydlu cychwynol.



Datblygwyd y ganolfan gymunedol yn Llangefni o amgylch y cysyniad o siop nid er elw, sy'n ail-ddosbarthu cynnyrch dros ben o amryw o archfarchnadoedd a chynhyrchwyr bwyd. Cesglir bwyd dros ben oddi wrth gyflenwyr bwyd lleol a fyddai wedi'i anfon i safleoedd tirlenwi fel arall. Mae'r siop yn glwb bwyd ar sail aelodaeth, sy'n costio £5 yr wythnos, ac yn agored i bawb. Mae'r ffi aelodaeth yn galluogi aelodau i gael mynediad at werth o leiaf £20 o fwyd bob wythnos.

Ym mis Rhagfyr yn unig, dosbarthwyd 120 o barseli ac mae gwirfoddolwyr wedi gweithio oddeutu 158 o oriau.


Mae Bwyd Da Môn nawr yn mynd ati i gynyddu lefelau stoc, datblygu prydau parod gyda gwastraff bwyd y mae angen ei ddefnyddio ar unwaith, ac yn y dyfodol maent yn gobeithio cyflwyno rhaglen addysgu sgiliau coginio cymunedol lle anogir teuluoedd i ddarparu prydau cartref ffres a maethlon.



Diweddariad ar brosiectau Economaidd-gymdeithasol aml-flwyddyn a ariannwyd:

Cyngor Sir Ynys Môn, Cynllun Adfywio Gogledd Ynys Môn, cyllid NDA gwerth £495,000 dros dair blynedd.

Ym mis Gorffennaf 2018 gyda chyllid gwerth £38,500 gan Magnox, comisynodd Cyngor Sir



Ynys Môn arolwg ar gyfer Gogledd Ynys Môn i lywio'r gwaith o baratoi Cynllun Adfywio, fel rhan o Gam 3 y Rhaglen Ynys Ynni.

O'r ymatebion, cynhyrchwyd Adroddiad Canlyniadau'r Arolwg Ymgynghori. Amlygodd hwn set o flaenoriaethau lleol a welwyd gan y cymunedau lleol, lle mae angen y buddsoddiad.

Yn 2019, ymrwymodd yr NDA i gyfraniad gwerth £495,000 dros dair blynedd ar gyfer pecyn o fesurau sydd â'r nod o hybu gweithgarwch busnes; y gadwyn gyflenwi a chyflogaeth; cynyddu twristiaeth; gwella cludiant ac isadeiledd; ac adfywio'r Stryd Fawr.

Er bod y pandemig Covid-19 wedi cael effaith aruthrol ar y flwyddyn gyntaf, llwyddwyd i gomisiynu nifer o astudiaethau. Cynhyrchwyd Achos Busnes er mwyn cyfiawnhau Parth Menter ar gyfer yr hen safle Octel ac Ystâd Ddiwydiannol Amlwch. Cynhyrchwyd Uwchgynllun Adfywio Porth Amlwch yn amlinellu cyfleoedd ar gyfer ailddatblygu'r ardal ynghyd â Chynllun Gweithredu Cyrchfan, yn dynodi atyniadau i ymwelwyr mewn cynllun cydlynol.

Dyrannwyd £50,000 hefyd i Gronfa Grantiau Gogledd Ynys Môn a olygodd fod 11 o sefydliadau wedi cael eu cefnogi, gan arwain at greu/diogelu 39 o swyddi, 30 o gyfleoedd hyfforddiant a 96 o gyfleoedd gwirfoddoli. Ymhlith y sefydliadau a gefnogwyd oedd Caru Amlwch, Gwinllan Padrig a physgotwr ifanc a gymerodd yr awenau ar fusnes ei dad.

Cafodd **Prosiect STEM Gogledd** werth £201,000 o gyllid Magnox dros bedair blynedd i wasanaethu Ynys Môn, Gwynedd a Chonwy. Mae'r prosiect yn datblygu'n dda serch y ffaith fod mentoriaid wedi gorfod dychwelyd i ddarparu sesiynau rhithiol. Roedd dros 300 o ddisgyblion wedi cofrestru gyda'r prosiect yn y chwe mis cyntaf cyn y cyfnod clo ym mis Mawrth, gyda 59% o'r rhai a gofrestrwyd yn ferched. Mae bron i 600 o ddisgyblion wedi cymryd rhan mewn ymyriadau a gynlluniwyd.

Mae'r Canolbwynt wedi'i ddatblygu'n llawn bellach ac mae'n cefnogi disgyblion, athrawon a rhieni. Mae'n cynnwys syniadau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg (STEM), gwybodaeth gyrfaoedd, canllawiau digwyddiadau, cystadlaethau a dolenni cyswllt i gymorth adolygu.

Fis Hydref diwethaf, roedd rhai disgyblion blwyddyn 10 wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau yn Zip World, Bethesda ac ymddangos yn rhifyn dau o gyfres Carol Vorderman 'Closer to home' a ddangoswyd ar BBC One yn ddiweddar:

<https://www.bbc.co.uk/iplayer/episode/m000r944/carol-vorderman-closer-to-home-series-1-episode-2>



Carol Vorderman gyda chyfranogwyr STEM Gogledd yn Zip World

Cyn y cyfnod clo, ymwelodd llysgenhadon o'r rhaglen â sawl ysgol ar Ynys Môn i roi cyflwyniadau. Cawsant sgysiau gan llysgenhadon STEM fel Frankie Hobro o'r Sw Môr a roddodd gyflwyniad ar gynaliadwyedd a Bioleg Forol, Debbie Jones o Brifysgol Bangor ar Ffiseg Niwclear a Katie Haywood, rheolwr safle adeiladu, a siaradodd am "Ferched mewn STEM". Clywodd rai myfyrwyr gyflwyniadau hefyd am "Llwyddo'n Lleol" a chwmni Cynhyrchu Cyfryngau Digidol ynghylch eu canfyddiad o swyddi ar Ynys Môn.



'Merched mewn adeiladu' Blwyddyn 9 yng Ngholeg Llandrillo Menai



Ysgol Syr Thomas Jones, sgysiau gyda phrentisiaid o Read Construction



Ymwelodd chyfranogwyr â system bŵer trydan dŵr Ynni Ogwen ar yr Afon Ogwen.



Mae Môn CF newydd gwblhau eu trydedd flwyddyn, yr olaf yn eu prosiect 'Cantau Nesaf' gyda chyllid gwerth £300,000 oddi wrth Magnox.

Caniataodd y cyllid hwn i wasanaethau academi barhau wrth iddynt drosglwyddo i eiddo newydd drwy gefnogi swyddi rheolwr darparu'r academi a dau gydlynnydd hyfforddiant amser-llawn.

Roedd cyllid Magnox hefyd wedi helpu Môn CF i ddenu £480,000 ychwanegol i brynu ac adnewyddu eu prif Bencadlys a'u canolfan.

Yn 2020/21 yn unig, mae cyllid Magnox wedi helpu dros 600 o gyfranogwyr ledled Ynys Môn, gyda dros 150 o ddalgylch Amlwch. Cefnogwyd 240 o bobl i ddechrau mewn cyflogaeth, 43 o'r rheiny o ardal Amlwch.

Sicrhawyd 450 o gymwysterau hefyd, 138 o'r rheiny yn gyfranogwyr o Amlwch.

Roedd Lynn Rees sydd bellach yn gweithio mewn Meddygfa leol, wedi cael budd o'r gefnogaeth gan ddweud, *"Y peth gorau am Môn CF yw'r holl hyfforddiant rydych yn ei gael a'r gefnogaeth barhaus i sicrhau cyflogaeth. Mae'n golygu popeth i mi fy mod bellach mewn gwaith ac yn gwneud rhywbeth rydw i wrth fy modd yn ei wneud! Rydw i mor hapus fy mod wedi troi at Môn CF gan ei fod wedi newid fy mywyd!!"*



O fis Chwefror 2021, bydd Môn CF hefyd yn darparu'r Cynllun Kickstart a ariennir gan y Llywodraeth i roi'r cyfle i bobl ifanc 16-24 oed i gael lleoliadau gwaith am dâl am chwe mis.